# Cyngor Dinas Bangor
# Adroddiad Blynyddol 2023 - 2024





**Cyng Elin Walker Jones**
**Cadeirydd y Cyngor**

**Dr Martin Hanks**
**Cyfarwyddwr Dinesig**

**Swyddfeydd y Cyngor**
**Ffordd Gwynedd**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 1DR**

**E-bost: townclerk@bangorcitycouncil.com**
**Ffôn: 01248 352421**

**(1) Rhagymadrodd**

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw hysbysu trigolion Dinas Bangor am y gweithgareddau a wnaed gan Gyngor y Ddinas yn ystod y cyfnod Mai 2022 i Ebrill 2023 ac mae'n amlygu ei huchelgeisiau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023 – 2024. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, yn cynnwys wardiau etholiadol, y Cynghorwyr a’r staff a bydd hefyd yn rhoi trosolwg o weithgareddau’r Cyngor. Bydd yr Adroddiad hefyd yn egluro sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at lesiant ei ardal yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys y cyni economaidd, newid hinsawdd, tlodi ac anghydraddoldebau iechyd. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd angen i bob rhanbarth a phob cymuned gydweithio er mwyn rhoi ansawdd bywyd da i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n hanfodol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith hirdymor y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw, yn enwedig o safbwynt bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, a materion sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd. Gyda phrif effeithiau Covid19 y tu cefn i ni, mae’r ôl- effeithiau economaidd, a waethygwyd gan y rhyfel yn Wcrain, yn cael effaith sylweddol ar yr economi genedlaethol ac felly hefyd ar ein heconomi leol.

Yn gynwysedig yn yr adroddiad hwn, mae Adroddiad Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2023-24 Cyngor y Ddinas. Mae’r adroddiad yn ofynnol gan Ddeddf (Cymru) 2015, ac mae’n darparu diben cyffredin sy’n rhwymol yn gyfreithiol – ( y saith nod llesiant) – i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff hynny weithio, a gweithio gyda’i gilydd, er mwyn gwella llesiant Cymru.

**(2) Y Cyngor**

Mae gan Fangor hanes hir sy'n dyddio’n ôl i'r cyfnod ar ôl y Rhufeiniaid. Sefydlwyd Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant yn 525 OC a bu meddiannaeth barhaol yma ers hynny. Yn ddaearyddol, saif Bangor mewn dyffryn rhwng dwy grib sy'n rhedeg o'r Gogledd Ddwyrain i'r De Orllewin ac mae'r dyffryn wedi'i glustogi yn y Gogledd Ddwyrain gan y môr. Mae'r lleoliad daearyddol hwn yn rhoi ecosystem fioamrywiol i'r Ddinas. Mae'r ardal yn dioddef gan erydiad arfordirol a bydd gwaith yn dechrau yn y blynyddoedd nesaf i wella’r amddiffynfeydd llifogydd.

Ffurfiwyd Cyngor Dinas Bangor (CDB) ym 1974 ac mae'n gwasanaethu Dinas , sydd ag wyth Ward ac sydd â phoblogaeth o dros 18,000 (yn 2019). Ategir y nifer parhaol o'r preswylwyr hyn gan ryw 12,000 o fyfyrwyr, sy'n golygu bod gan Fangor un o'r cymarebau uchaf o ran myfyrwyr a phreswylwyr parhaol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhychwant demograffig hwn yn dod â buddion unigryw i’r Ddinas ynghyd â heriau unigryw.

Gyda’r cyfyngiadau diweddar a achoswyd gan Covid 19 crewyd heriau newydd a

chyfyngwyd ar allu Cyngor y Ddinas i fwrw ymlaen â'i bolisïau.

Mae Cyngor y Ddinas yn cynnwys 20 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli saith Ward wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

| **Ward** | **Nifer yr Aelodau** | **Enwau'r Aelodau** |
|---|---|---|
| Garth | 1 Aelod | Huw Wyn Jones |
| Glyder | 3 Aelod | Gareth Parry<br>Gwynant Roberts<br>Elin Walker Jones |
| Marchog | 4 Aelod | Dylan Fernley<br>Nigel Pickavance<br>Delyth Russell<br>gwag |
| Menai | 3 Aelod | Jac Jones<br>Shane Parsons<br>Meic Pattison |
| Dewi | 3 Aelod | Gareth Roberts<br>John Wyn Williams<br>Eirian Williams Roberts |
| Hendre | 3 Aelod | Medwyn Hughes<br>John Wyn Jones<br>Lisa Toth |
| Hirael | 3 Aelod | Steve Bell<br>Mark Roberts<br>Salamatu Fada |

Diwygiwyd y rhestr o Wardiau a Chynghorwyr uchod yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Yn cyfateb i'r etholiad hwn, newidiwyd rhai o'r ffiniau, yn fwyaf amlwg cafodd Ward Deiniol ei dileu. Yn dilyn yr etholiad, aeth y Cyngor ati i lenwi'r chwe lle gwag. Dros y deuddeg mis ers yr etholiad bu newidiadau pellach i'r rhestr o Gynghorwyr. Mae'r rhestr uchod yn dangos y sefyllfa ym mis Mai 2023, pan oedd un lle gwag yn Ward Marchog .

I gael y rhestr ddiweddaraf o Gynghorwyr, ewch i wefan y Cyngor: Cyngor Dinas Bangor - Cyngor Dinas Bangor - Cartref neu e-bostiwch Gyfarwyddwr y Ddinas yn townclerk@bangorcitycouncil.com .

Yn unol â chynghorau traddodiadol, a chynghorau lleol eraill, mae Cyngor Dinas Bangor yn ethol Maer a Dirprwy Faer bob blwyddyn o blith ei Aelodau, i weithredu fel cadeirydd ac arweinydd i'r Cyngor. Y Cadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Elin Walker Jones, o Ward Glyder a fydd yn gwasanaethu tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024. Yr Is-Gadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Gareth Parry hefyd o Ward Glyder. Mae arfer yn mynnu y bydd y Dirprwy Faer yn dod yn Faer y flwyddyn ganlynol, er nad yw hyn wedi'i osod mewn statud neu reoliad a gellir, ar adegau, wyro oddi wrth yr arfer.

Mae gan y Cyngor un prif bwyllgor, sef y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau. Cadeirir y Pwyllgor hwn gan y Cyng Medwyn Hughes a'i Ddirprwy, y Cynghorydd Steven Bell sy'n cadeirio yn ei absenoldeb. Mae pob Cynghorydd yn eistedd ar y pwyllgor hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn sefydlu is-bwyllgorau yn ôl yr angen, megis y Pwyllgor Penodiadau, Pwyllgor Nantporth a Phwyllgor Cydnerthedd Covid.

Mae Cyngor y Ddinas fel arfer yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis, ac eithrio ym mis Awst. Cynhelir y cyfarfodydd am 6.30 pm ar nos Lun yn Neuadd y Penrhyn, er, yn ystod Covid, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn o bell. Yn dilyn newid yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn 2021, mae cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal, er bod y Cyngor yn dal i gael problemau gyda'r fformat yma a chynghorir pobl i fynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb lle bo modd er mwyn clywed y trafodaethau. Un o flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod yw mynd i'r afael â'r system hybrid er mwyn profiad y mynychwyr o bell. Cyhoeddir cyfarfodydd y Cyngor ar wefan y Cyngor. Am restr o'r cyfarfodydd a drefnwyd, gweler atodiad A.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau pwysig sydd angen eu rheoli, gan gynnwys

- Pier y Garth
- Neuadd y Penrhyn
- Stadiwm Pêl-droed Nantporth
- Caeau Ashley Jones
- Coed Menai
- Bwyty'r Pier
- Caeau Dargie
- Canolfan Gymunedol Hafan
- Gweithdy'r Pier
- Tŷ'r Pierfeistr
- Maes Parcio Ffordd Garth
- Cloc y Dref
- Amrywiol lochesi bws, meinciau a dodrefn stryd.

Er mwyn cynorthwyo'r Maer a'r Cyngor i redeg yn effeithiol a rheoli'r asedau, mae'r

Cyngor yn cyflogi pum aelod o staff llawn amser. Yn y gorffennol ategwyd y rhain gan ddau aelod o staff tymhorol ychwanegol, ers Covid mae'r arfer hwn wedi dod i ben a rhai elfennau wedi'u contractio allan. Y brif swydd yw’r Cyfarwyddwr Dinesig, rôl sy'n cyflawni dyletswyddau Swyddog Priodol, Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol.

**Cyfarwyddwr Dinesig –** Dechreuodd deiliad swydd y Cyfarwyddwr Dinesig, Dr Martin Hanks, yn ei waith yn llawn amser ym mis Medi 2022. Mae'n Glerc Tref profiadol, yn Brif Aelod o'r SLCC ac yn eistedd ar Bwyllgor Gwaith yr ALCC.

**Swyddog Gweinyddol** - Ymddeolodd y Swyddog Gweinyddol blaenorol, yn dilyn cyfnod o absenoldeb salwch hirdymor, ym mis Gorffennaf 2022. Penodwyd unigolyn yn ei lle ym mis Hydref 2022 ac mae hi wrthi’n derbyn hyfforddiant ffurfiol i fod yn Ddirprwy i Gyfarwyddwr y Ddinas.

**Swyddog Prosiectau** - Mae Swyddog Prosiectau Dinas Bangor yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau, yn cynnwys goruchwylio gwaith adnewyddu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd Pier Garth Bangor. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys trefnu digwyddiadau, cynnal asedau’r Cyngor, cysylltu â swyddogion cyngor Gwynedd ar faterion technegol a chynorthwyo’r Cyfarwyddwr Dinesig.

**Uwch Swyddog Cynnal a Chadw’r Cyngor** (SMO) Daeth yr Uwch Swyddog Cynnal a Chadw i’w swydd ym mis Chwefror 2023, er ei fod wedi bod yn gyflogedig gan Gyngor y Ddinas ers rhyw 16 mlynedd. Mae ef, gyda'r Swyddog Cynnal a Chadw, yn ymgymryd â nifer o ddyletswyddau goruchwylio a rheoli awyr agored.

**Swyddog Cynnal a Chadw** – mae'r swyddog hwn yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau awyr agored, gan gynnwys torri gwair, glanhau, cynnal a chadw’r pier yn rheolaidd, cynnal a chadw safleoedd bws, meinciau ac ati.

## (3) Crynodeb o Weithgareddau'r Cyngor - 2022/23

Mae'r crynodeb hwn o weithgareddau wedi'i fodelu ar y saith nod llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

| **Nod Llesiant** | **Disgrifiad o'r Nod** |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatau i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr |

| | |
|---|---|
| | hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymunedau Cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diffinio datblygu cynaliadwy, fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy’n anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Yn hyn o beth mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl tuag at hyrwyddo datblygu cynaliadwy a'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf wrth weithredu dros, a gyda, cymunedau lleol.

Mae'r nodau llesiant yn llwyr integreiddio i'w gilydd ac yn egluro beth a olygir gan lesiant Cymru. Mae'r Cyngor yn croesawu'r nodau llesiant hyn a bydd yn gosod y nodau hyn wrth wraidd ei drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn gwella ansawdd bywyd cyffredinol (llesiant) yn ei ardal weinyddol.

Wrth gymhwyso'r nodau llesiant hyn i’r swyddogaethau, y gweithgareddau a’r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor y Ddinas, mae’r ddeddf yn mynnu fod y Cyngor yn meddwl yn y tymor hirach, yn gweithio’n well gyda phobl a chymunedau a chyrff cyhoeddus eraill, i geisio atal problemau rhag codi, ac i gymryd agwedd fwy cydlynus. Mae llawer o'r nodau a’r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ac yn gorgyffwrdd â’i gilydd.

Mae gweddill yr Adroddiad hwn yn cyfateb i'r 7 nod llesiant yn y Ddeddf.

Dylid nodi fod pandemig Covid-19 wedi taro yn ystod mis Mawrth 2020 a bod ei effeithiau yn dal i gael eu teimlo. Chwaraeodd y Cyngor rôl greiddiol o fewn y gymuned, er mwyn lliniaru effaith Covid-19 ar y Ddinas a'i thrigolion ac mae'n barod i ail gychwyn y mesurau pe cyfyd yr angen.

**1. Cymru lewyrchus**

**“**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas**.”**

Mae gan Gyngor y Ddinas gynrychiolwyr ar nifer o gyrff perthnasol yn y Ddinas a thu hwnt, sy'n ceisio cyflwyno cynlluniau a fydd yn tyfu economi'r Ddinas. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyrff Llywodraethu Ysgolion;
- Partneriaeth Strategol Bangor
- Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor
- Cyngor ar Bopeth
- Partneriaeth Maesgeirchen
- Nantporth CIC ;
- Ffrindiau Pier y Garth;
- Un Llais Cymru;
- Cymdeithas Ddinesig Bangor;
- Canolfan Gymunedol y Garth.

Mae Bangor wedi ei gefeillio â Soest (yr Almaen) ac yn gweithio i gynyddu cysylltiadau diwylliannol gydag Ewrop. Mae 2023-2024 yn dathlu 50 mlynedd ers y Gefeillio hwn a disgwylir cyfeillion o’r Almaen ym mis Hydref, gyda golwg ar atgyfnerthu’r cysylltiadau diwylliannol hyn. Mae Cyngor y Ddinas wedi dechrau trafodaethau i sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol, a fydd â'r dasg o adnabod eiddo ar y Stryd Fawr y gellir eu prynu, eu gwella a'u cynnig i fentrau cymunedol neu weithredwyr trydydd sector. Yn yr un modd, mae cynlluniau i sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol i reoli Pier y Garth a'r cyffiniau. Bydd hyn yn helpu i wneud y mwyaf o fuddiannau economaidd un o brif atyniadau'r Ddinas.

## 2. Cymru Gydnerth

**“Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).”**

Mae Cyngor y Ddinas wedi buddsoddi mewn defnydd o ffynonellau ynni mwy effeithlon a charedig i’r amgylchedd, sydd wedi arwain at leihau ei ôl troed carbon a gostyngiad sylweddol mewn costau ynni.

Mae newid y cyflenwyr ynni hefyd wedi gwella effeithlonrwydd a chostau.

Mae gosod drysau mewnol wedi lleihau’n sylweddol y costau ynni blynyddol yn swyddfeydd y Cyngor.

Mae'r defnydd o oleuadau ynni isel mewn arddangosfeydd Nadolig wedi cael yr

un effaith, a hefyd wedi gostwng costau blynyddol y goleuadau Nadolig.

Mae'r defnydd o dechnoleg newydd yn helpu i symud y busnes tuag at ddyfodol di-bapur. Er bod mwy o waith i'w wneud.

Gwneir taliadau’r Cyngor yn electronig, sy’n lleihau’r angen am bapur.

I wneud iawn am ôl troed carbon y Cyngor, mae mwy o ardaloedd o dir y Cyngor yn cael eu hau fel perllannau blodau gwyllt.

Mae'r ddinas yn sefydlu cysylltiadau gyda grwpiau a gwirfoddolwyr lleol gyda golwg ar gynyddu bioamrywiaeth a gwella gwyrddni Bangor. Yn ystod blwyddyn ddinesig 2023 – 2024 gobeithir y bydd Cyngor y Ddinas yn gweithredu fel hwylusydd i sefydlu grŵp Bangor gwyrdd gwirfoddol newydd.

3. Cymru Iachach

**“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.”**

Nod Cyngor y Ddinas yw cefnogi sefydliadau sy'n hybu byw'n iach. I gyflawni hyn mae'r Cyngor yn rhoi cymorth ariannol i unrhyw sefydliad sy'n gallu dangos bwriad at y nod hwn. Mae grwpiau cymunedol sy'n gwella mannau gwyrdd y Ddinas, clybiau chwaraeon a chanolfannau lles wedi derbyn cefnogaeth gan y Cyngor.

Yn ogystal, mae Cyngor y Ddinas yn buddsoddi’n helaeth mewn parciau a llefydd chwarae yn y Ddinas, er bod y rhain yn eiddo i Gyngor Gwynedd. Dros y deuddeg mis nesaf mae hanner can mil o bunnoedd wedi'i glustnodi i wella parciau a llefydd chwarae'r Ddinas.

Mae buddsoddi yn cael ei wneud ar dir Cyngor y Ddinas hefyd i’w cynnal ar gyfer defnydd y cyhoedd.

Daeth Pier y Garth, yn enwedig ers Covid 19, yn ganolfan boblogaidd ar gyfer profi'r awyr agored. Er mwyn adeiladu ar ei boblogrwydd bwriedir sefydlu canolfan llogi beiciau wrth fynediad y Pier, a fydd yn cynnwys beiciau trydan (a phwyntiau gwefru).

Mae Cyngor y Ddinas wedi dechrau trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i ystyried trosglwyddo ased cyfleusterau chwaraeon Ffordd y Traeth. Byddai hyn yn galluogi’r Cyngor i wella’r cyfleusterau chwaraeon yno.

Mae cyfleusterau Ffordd y Traeth hefyd yn cynnwys dau faes parcio wedi’u lleoli o fewn cerdded hawdd i Bier y Garth. Byddai hyn yn galluogi ymwelwyr i barcio yn Ffordd y Traeth ac yna, wedi cerdded ychydig, llogi beic neu feic trydan er mwyn mwynhau’r Ddinas a’r ardal o gwmpas.

4. Cymru fwy cyfartal

**“Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i roi cymorth ariannol i nifer o grwpiau amrywiol ledled y Ddinas ac mae’n cael ei gynrychioli hefyd gan Aelodau ar lawer o grwpiau a mudiadau cymunedol.

Mae llawer o'r grwpiau hun yn gweithio tuag at Gymru fwy cyfartal, o wella addysg i roi cyfleoedd i’r trigolion ddatblygu sgiliau newydd. Er enghraifft, cymeradwyodd Cyngor y Ddinas hwb ariannol yn ddiweddar i ddarparu M-Sparc ar y lôn ar y Stryd Fawr, a oedd yn rhoi cymorth a chyngor i fusnesau ac unigolion.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Cyngor fyfyriwr o’r brifysgol ar brofiad gwaith a oedd yn cael trafferth dod o hyd i brofiad perthnasol fel arall, ac mae hefyd yn gweithio’n agos gyda chynghorau’r ysgolion uwchradd i annog pobl ifanc o bob cefndir i gymryd rhan mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth ariannol i Cyngor ar Bopeth ac mae Aelod o'r Cyngor yn eistedd ar y Bwrdd er mwyn sicrhau cyfathrebu cadarn.

Datblygwyd nifer o gynlluniau i helpu'r rhai sy'n cael trafferthion ariannol, o gefnogi banciau bwyd i gynnig llogi Neuadd Penrhyn am bris gostyngol ar gyfer digwyddiadau a phriodasau. Mae gan y Neuadd gyfleusterau cegin, mynediad i'r anabl gan gynnwys dolen glyw.

Mae gan y Cyngor wefan newydd i hwyluso cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

Mae'r Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle amlwg yn ei holl ddigwyddiadau.

Er mwyn gwella mwynhad o'r Ddinas a chynyddu llesiant, mae Cyngor y Ddinas yn trefnu ac yn cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, y mae llawer ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim ac felly gall pobl o bob cefndir ariannol a diwylliannol eu mwynhau.

5. Cymru o gymunedau cydlynus

**“Cymunedau, atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da”**

Mae Cyngor y Ddinas yn cynllunio buddsoddi’n drwm i wneud y Stryd Fawr yn fwy deniadol, mae gwaith eisoes wedi dechrau ar baratoi cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ar y mater hwn.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill, yn cynnwys yr

Heddlu, Bangor yn Gyntaf, (Ardal Gwella Busnes gynt) a Chyngor Gwynedd i wella diogelwch dinasyddion ac ymwelwyr.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd rhan mewn materion sy'n effeithio ar bawb yn y Ddinas, yn arbennig penderfyniadau cynllunio, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chysylltu â'r awdurdod unedol. Mae Cyngor y Ddinas yn chwarae rhan bwysig o ran ymgynghori a chydweithio rhwng aml-asiantaethau.

Derbynnir, dros y blynyddoedd diwethaf, hyd yn oed cyn y Covid, fod bwlch yn y cyfathrebu rhwng asiantaethau a grwpiau cymunedol yn y Ddinas. Mae'r Cyngor bellach yn gweithio'n galed i wella cyfathrebu rhyng-sefydliadol o'r fath.

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i gyflawni rôl gymunedol bwysig:

a) trefnu Sul y Cofio;
b) gosod goleuadau Nadolig
c) trefnu gŵyl haf (y tro cyntaf eleni ers sawl blwyddyn)
d) trefnu Noson Tân Gwyllt (dim ond yr ail dro eleni ers sawl blwyddyn).
e) trefnu'r digwyddiad Cracer Nadolig (dim ond yr ail dro eleni ers sawl blwyddyn).
f) helpu i gynnal digwyddiadau ar y Pier, gan gynnwys gwasanaeth carolau Nadolig, gŵyl Fai ac ati.

Mae Cyngor y Ddinas yn codi basgedi crog ar hyd y Stryd Fawr i wella golwg esthetig y Ddinas.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."**

Mae Bangor yn ymfalchïo yn y ffaith mai hi yw'r ddinas fwyaf Cymreig yn y Byd. Mewn cyferbyniad, Bangor hefyd yw'r ddinas fwyaf amrywiol yng ngogledd Cymru. Mae'r ffeithiau gwrthgyferbyniol hyn yn cyd-fynd yn hynod o dda ac mae Cyngor y Ddinas yn gwneud pob ymdrech i warchod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru tra'n croesawu pob diwylliant arall.

Er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg cynhelir pob cyfarfod yn ddwyieithog ac mae holl waith papur y Cyngor, yn cynnwys cofnodion, adroddiadau a pholisïau, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd unrhyw un sy'n cysylltu â Chyngor y Dinas drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn derbyn ateb yn yr iaith honno.

Mae'r Cyngor hefyd wedi hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol blynyddol yn cynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, pan fu gorymdaith drwy'r ddinas a threfnir digwyddiadau eraill hefyd i roi hwb i'r iaith a'r diwylliant.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith i asesu a gwella'r

ddarpariaeth Gymraeg yn gyson.

Mae yna hefyd lu o sefydliadau rhyngwladol wedi'u lleoli yn y Ddinas ac mae'r Cyngor yn croesawu ac yn cefnogi pob un ohonynt. Er enghraifft, mae'r Maer yn cyflwyno myfyrwyr Japaneaidd newydd i Sefydliad y Drindod bob blwyddyn ac yn mynychu digwyddiad Blwyddyn Newydd Cymdeithas Confucius. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Jamaica a'r Gymdeithas Affricanaidd a Charibïaidd. Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd Cofio 75 mlynedd ers Windrush a'r Diwrnod Jamaica blynyddol yn cael eu cynnal yma yn Neuadd y Penrhyn.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."**

Mae'r wybodaeth a roddwyd uchod yn dangos sut mae Cyngor y Ddinas yn cyfrannu at wella llesiant pobl yn lleol. Gall y Cyngor fod yn haeddiannol falch o'r rôl mae wedi'i chwarae, ac yn cynnwys i'w chwarae, mewn cynifer o agweddau ar fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bangor.

Trwy gadw eu ffocws ar anghenion pobl leol, i'r dyfodol a pharhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r cymunedau lleol, a rhanddeiliaid eraill sydd â chylch gorchwyl ehangach, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, gall Cyngor Dinas Bangor fod yn hyderus ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cenedlaethol ac yn wir at lesiant byd-eang.

**Cyngor Dinas Bangor – 16 Ionawr 2023**

**CYLLIDEB 2023 - 2024**

**Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig**

**Trosolwg** .

Roedd blwyddyn ariannol 2022 – 2023 yn dipyn o flwyddyn drawsnewidiol i Gyngor Dinas Bangor. Arweiniodd etholiad mis Mai at newid sylweddol o fewn y Cyngor, gyda dros hanner yr Aelodau yn eistedd am y tro cyntaf wedi hynny. Ar ôl penodi Cyfarwyddwr Dinas llawn amser ar 1 Medi, penodwyd gweinyddwr parhaol a Dirprwy Glerc dan hyfforddiant ar 1 Tachwedd. Roedd hyn yn sefydlogi gweinyddiaeth a chefnogaeth y Cyngor gyda thîm newydd, sy’n anelu at barhad a hirhoedledd. Mae strwythur pwyllgorau'r Cyngor hefyd wedi esblygu eto eleni ac mae gweithdrefnau a phrotocolau yn parhau i gael eu diwygio a'u diweddaru.

Yn gyffredinol, roedd y darlun economaidd cenedlaethol yn edrych yn eithaf llwm ar gyfer ail hanner 2022 ac i mewn i 2023, ac nid oes amheuaeth bod Stryd Fawr Bangor yn adlewyrchu hyn, ond mae yna resymau i fod yn obeithiol. Nid oes angen cyfyngiadau cymdeithasol Covid 19 bellach ac mae bywyd i'r mwyafrif wedi dychwelyd i rywbeth fel normalrwydd. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor, gyda chymorth penodiad y Cyfarwyddwr Dinesig, i ddod yn llawer mwy gweithgar yn y Ddinas ac yn y gymuned. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at rai posibiliadau diddorol o gydweithio a fydd yn gwneud y mwyaf o fanteision allbwn ariannol y Cyngor.

Mae rhai llwyddiannau ariannol nodedig eraill yn ystod 2022 wedi dod yn sgil y berthynas barhaus â Ffrindiau Pier y Garth a’r gwaith rhagorol sy’n cael ei wneud gan y grŵp hwnnw o wirfoddolwyr. Mae archebion Neuadd y Penrhyn wedi parhau i gynyddu o ganlyniad i’w ddefnydd fel lleoliad priodas a chan gyrff masnachol yn ystod yr wythnos waith.

Cwblhawyd peth gwariant sylweddol ar asedau’r Cyngor, gan gynnwys gorsaf bwmpio’r pier a’r pibellau cysylltiedig i’r tir mawr, y sylfaen i dŷ’r Pier Feistr, gwaith ar y coed yng Nghoedydd Menai a rhai atgyweiriadau i ystafell Neuadd y Penrhyn. Bydd y gwaith o adnewyddu Cloc y Dref hefyd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Er gwaethaf cwblhau'r prosiectau mawr hyn, mae cyllid y Cyngor yn parhau'n iach, a gwelwyd ffigur sylweddol yn cael ei

ddwyn ymlaen.

Rhagwelir y bydd £220,000 yn cael ei ddwyn ymlaen o flwyddyn ariannol 2022-2023 i'r flwyddyn ddinesig newydd. O hynny, mae £115,000 wedi'i ddosbarthu fel cronfeydd statudol wrth gefn a dylid ei gadw ar gyfer argyfyngau. Mae'r £105,000 sy'n weddill wedi'i ymgorffori yng nghyllideb ariannol 2023-2024.

**ARGYMHELLIAD: cadw'r arian wrth gefn cyffredinol ar £115,000 (h.y. 25% o'r praesept yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru).**

## 1) Adolygu Prisiau, Taliadau a Rhenti'r Cyngor

(a) **Neuadd y Penrhyn:** Fel y soniwyd uchod mae archebion ar gyfer Neuadd Penrhyn wedi cynyddu dros y flwyddyn. Mae'r Neuadd yn dal i gael ei hyrwyddo a rhagwelir y bydd cynnydd cyson ond amlwg yn y defnydd yn parhau dros y flwyddyn i ddod. Ni argymhellir unrhyw godiadau pris ar hyn o bryd, er mwyn annog mwy o ddefnydd. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd a gwresogi a brofwyd yn ddiweddar, dylid monitro'r costau hyn yn ofalus. Mae mesurydd clyfar yn cael ei osod i hwyluso'r monitro.

| **Nifer y sesiynau** | **1** | **newid** | **2** | **newid** | **3 (diwrnod llawn)** | **Newid _** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priodasau | £50 | - | | | | |
| Ymarfer | £25 | - | | | | |
| Grwpiau Lleol/Elusennau | £25 | - | £33 | | £42 | |
| Busnes/Eraill | £60 | - | £90 | | £105 | +£5 |
| *Gyda chyfleusterau Cegin | £10 | - | £15 | | £20 | - |
| | Archebion bloc trwy drafodaeth | | | | | |

**ARGYMHELLIAD: cadw'r taliadau cyfredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 ond eu hadolygu bob chwarter.**

**(b) Pier Bangor:**

| | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Rhentu Ciosg | £635 y flwyddyn | £635 y flwyddyn |
| Rhentu Ciosg Mynediad | £370 y flwyddyn | £370 y flwyddyn |
| Caffi'r Pafiliwn | £8,000 y flwyddyn | £8,000 y flwyddyn |
| Maes parcio | £1.50 | £1.50 |
| Maes Parcio Dros Nos | £20.00 | £20.00 |
| Mynedfa'r Pier | 50p.<br>Tocyn Blynyddol o £10. [4]<br>Tocyn Oes £20 | 50p.<br>£10 Tocyn Blynyddol<br>Tocyn Oes £20 |

Argymhellir bod rhenti ciosg a thaliadau meysydd parcio yn aros yr un fath am y deuddeg mis nesaf. Newidiwyd ffioedd mynediad i'r Pier yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Awst ac felly argymhellir hefyd bod y rhain yn aros heb eu newid ar hyn o bryd.

**ARGYMHELLIAD: cymeradwyo'r Rhenti, mynedfa'r Pier, a thaliadau maes parcio'r Pier ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.**

**2) Gwaith Cyfalaf ar y Pier**

Yn ogystal â'r cynnal a chadw arferol, mae'r flwyddyn gyfredol wedi gweld cwblhau'n llwyddiannus yr orsaf bwmpio a'r pibellau cysylltiedig i'r tir mawr a'r gwaith ar sylfaen tŷ'r Pier Feistr. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd adroddiadau diogelwch wedi dod i law ar y ddau gyfnod adnewyddu sydd heb eu cwblhau (camau 5 a 6), yn ogystal â system drydanol y Pier.

Er na ellir rhagweld canlyniadau'r adroddiadau hyn, un rhan o'r Pier y dylid rhoi blaenoriaeth iddi yn ystod 2023-2024 yw'r darn sy'n cynnwys yr ail res o giosgau. Bydd y gwaith adnewyddu hwn yn cael ei wneud o dan y brif rodfa ac ni fydd yn effeithio ar fynediad cyffredinol i'r Pier, er y dylid cau ciosgau 3 a 4 yn ystod y gwaith. Fel yr amlygwyd yn y ddau adroddiad blynyddol diwethaf, mae gwaith adnewyddu rheolaidd yn cael ei wneud i atal, neu o leiaf oedi, yr angen am waith adnewyddu strwythurol mawr yn y dyfodol. Yn wir, trosglwyddwyd £20,000 i'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol i gyfrannu at waith o'r fath. Disgwylir y bydd angen cyfanswm o £75,000 i gwblhau'r gwaith adnewyddu hwn.

Bydd angen cyllid allanol i ymgymryd â chamau pump a chwech. Ar hyn o bryd

nid oes angen cymryd y camau hyn ar unwaith ond, o safbwynt diogelwch, yn ogystal ag o safbwynt economaidd, dylid eu cyflawni o fewn y pum mlynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd ymdrechion i ganfod cyllid allanol yn parhau.

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i weithio'n agos gyda Ffrindiau Pier y Garth ar weithrediadau o ddydd i ddydd ac wrth drefnu digwyddiadau. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo cychwyn trafodaethau ar ymarferoldeb sefydlu, ar y cyd â’r Ffrindiau, Cwmni Buddiannau Cymunedol i reoli'r Pier a'r ardal gyfagos a'i wneud yn hunangynhaliol yn economaidd ac yn weithredol. Mae'r trafodaethau hyn wedi dechrau a dylai'r Cyngor ddisgwyl datblygiadau yn ystod 2023-2024.

**ARGYMHELLIAD: Fod y Cyngor yn dyrannu £75,000 i'r gwaith cynnal a chadw strwythurol sydd ei angen yng nghyffiniau ciosgau 3 a 4. Bod y gwaith o chwilio am gyllid allanol i hwyluso cwblhau camau pump a chwech yn parhau pan fo hynny'n ymarferol.**

**3) Materion Eiddo Eraill**

Gyda'r heriau ariannol sy'n wynebu holl awdurdodau unedol Cymru, yn cynnwys Gwynedd, rhagwelir y bydd adnoddau i wneud gwaith cynnal a chadw statudol yn cael eu hymestyn hyd yn oed ymhellach. Rhagwelir felly y bydd dirywiad gwasanaethau yn effeithio ar fannau agored, yn enwedig parciau, meysydd chwarae ac argaeledd toiledau cyhoeddus ar draws y sir. Bydd Cyngor Dinas Bangor, fel llawer o gynghorau cymuned, angen penderfynu a ddylid derbyn y gwasanaethau llai hyn neu gymryd yr awenau yn lleol. Yn ystod 2022-23 paratôdd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau seiliau rhaglen waith a fydd yn gwella lefel y gwaith cynnal a chadw a brofir ar gaeau chwarae, parciau Bangor a chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus. Dros y flwyddyn ariannol nesaf bydd angen arian i adeiladu ar y prosiectau hyn.

Mae cyfleoedd i drosglwyddo asedau o Gyngor Gwynedd ac ar gyfer cydweithio gyda rhanddeiliaid mawr eraill yn y Ddinas, megis Adra a Phrifysgol Bangor yn debygol o godi dros y deuddeg mis nesaf. Dylai Cyngor y Ddinas fod yn hyblyg ac yn barod i dderbyn unrhyw gyfle sy'n caniatáu iddo wella gwasanaethau i'w gymunedau. Bydd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau angen cyllid yn 2023-2024 i ddatblygu a gwella asedau'r Cyngor a chaniatáu iddo wneud y mwyaf o gyfleoedd.

**ARGYMHELIAD: bod y Cyngor yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau archwilio unrhyw gyfle sy'n codi i wella asedau'r Cyngor, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor. Dyrannu £10,000 i'r pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau i'w ddefnyddio i uchafu gwerth asedau ac adnoddau presennol neu ychwanegol.**

Mae'r manylion isod ar eiddo'r Cyngor wedi'u cynnwys fel arweiniad ar ofynion cyllidebol pob ased yn y flwyddyn i ddod ac ni fwriedir iddynt orgyffwrdd â chynlluniau neu fentrau'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau.

Cafodd llawer o’r gwaith cynnal a chadw rheolaidd a chynlluniedig ei gwtogi yn ystod pandemig Covid 19. Fodd bynnag, mae llawer o’r gwaith cynnal a chadw hwn bellach wedi dal i fyny ac mae ystâd y Cyngor mewn cyflwr da yn gyffredinol:

- **Stadiwm Pêl-droed Nantporth**. Ar brydles i Nantporth CIC – Mae ansicrwydd ynghylch dyfodol Stadiwm Nantporth a hyfywedd CIC yn parhau. Fel y bydd y Cyngor yn ymwybodol, mae'r CIC yn dal i fod ag ôl-ddyledion rhent sylweddol, er, ar adeg yr adroddiad, derbyniwyd taliadau rhent rhannol am y ddau fis diwethaf. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr ased hwn, argymhellir bod y Cyngor yn neilltuo £10,000, fel cronfa wrth gefn ar gyfer costau nas rhagwelwyd.
- **Canolfan Gymunedol Hafan i'r Henoed a'r Anabl.** Ar brydles i Age Cymru Ynys Môn a Gwynedd. Dim gwariant wedi'i ragweld.
- **Tŷ’r Pier Feistr, Garth.** Mae'r adeilad hwn wedi'i leoli ar glogwyn isel yn union uwchben y marc penllanw. Cwblhawyd y gofyniad i danategu’r eiddo yn dilyn erydiad arfordirol. Mae'r eiddo bellach yn wag a dylid gwneud penderfyniad ynghylch dyfodol hirdymor yr eiddo yn gynnar yn 2023-2024.
- **Adeilad Gweithdy’r Pier.** Nid oes unrhyw faterion mawr yma. Mae'r gwaith o chwilio am storfa arall i ryddhau'r lle gwerthfawr hwn wedi dechrau, gyda'r tir y tu ôl i Nantporth yn edrych fel dewis arall ymarferol.
- **Cloc y Dref.** Bydd gwaith i atgyweirio Cloc y Dref yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2022-2023. Ni ragwelir unrhyw ofyniad yn ystod 2023-2024.
- **Neuadd y Penrhyn.** Mae adeiladwaith allanol y neuadd yn gyffredinol mewn cyflwr da. Fodd bynnag, bu angen atgyweirio'r to llechi o bryd i'w gilydd dros y 3 blynedd diwethaf, gyda'r diweddaraf yn gynnar yn 2023. Bydd yr atgyweiriad diweddaraf yn ddigon am gyfnod ond argymhellir

dyrannu £25,000-£30,000 (yn ôl y gwerthoedd presennol) yn y flwyddyn ariannol 2024-2024 i ail-doi.
Y tu mewn, mae Neuadd y Penrhyn mewn cyflwr esthetig da. Eto, fodd bynnag, mae'r boeler yn hen ac yn aneconomaidd fel y mae'r gwresogi. Dylai'r Cyngor ystyried uwchraddio hyn dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.

- **Parlwr y Maer.** Dim problemau ar hyn o bryd, er bod y Parlwr wedi dioddef o broblemau yn yr ystafell yr adroddwyd arni uchod.
- **Swyddfeydd y Cyngor.** Mae'r llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben swyddfeydd y Cyngor wedi'u rhannu'n swyddfeydd hunangynhwysol, sy'n rhannu mynedfa gyffredin. Mae'r ddau lawr bellach wedi'u llenwi ar sail hollgynhwysol. O ystyried y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd a gwresogi, dylid adolygu'r rhenti hyn yn ystod 2023-2024. Gosodwyd mesurydd clyfar yn ddiweddar i gynorthwyo gyda'r adolygiad o gostau gwresogi. Er bod swyddfeydd y Cyngor ar y llawr gwaelod yn ateb y diben, maent wedi dyddio ac nid ydynt yn portreadu delwedd 'broffesiynol'. Argymhellir bod y Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella ei ddelwedd ar gyfer ymwelwyr dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.
- **Cysgodfeydd Bws.** Mae atgyweiriadau a phaentio rheolaidd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ac mae rhaglen well o archwilio a chynnal a chadw yn cael ei pharatoi ar gyfer 2023-2024.

**4) Cynnal a Chadw Coetiroedd.**

Mae Coedydd Menai yn parhau o dan reolaeth y Cyngor. Mae staff y Cyngor yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyffiniau a gofynnir am gyngor arbenigol pryd bynnag y teimlir bod angen hynny. Gwneir gwaith cynnal a chadw yn ôl yr angen.

Gwnaed gwaith sylweddol yn y flwyddyn ariannol gyfredol i fynd i'r afael â’r Clefyd Coed Ynn, felly rhagwelir mai dim ond gwaith cynnal a chadw rheolaidd neu waith brys fydd ei angen ar y coed yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mewn cyferbyniad, mae angen sylw ar y ddau brif lwybr troed drwy'r coed. Mae'r llwybr isaf yn gyffredinol mewn cyflwr da ac mae angen cynnal a chadw tymhorol. Mae angen mwy o sylw ar y llwybr troed uchaf a bydd angen gwneud penderfyniad yn dilyn derbyn cyngor proffesiynol a ddylid uwchraddio'r llwybr troed neu ei gau. Mae clymog Japan wedi'i ganfod yn yr ardal hon, a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

**5) Mannau Agored a Mannau Chwarae**

- **Caeau Ashley Jones.** Gwnaed nifer o welliannau yn 2021, gan gynnwys cyflwyno deg ar hugain o goed Sakura Japaneaidd, bwrdd gwybodaeth (a noddwyd yn garedig gan Sefydliad y Drindod), tair mainc goffa newydd, a mainc Cyfeillgarwch y Beatles. Bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch gwelliannau parhaus.
- **Caeau Dargie.** Comisiynodd y Cyngor syrfëwr siartredig yn 2021 i asesu'r posibilrwydd o werthu'r safle. Penderfynwyd nad oedd hyn yn fuddiol oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys y dopograffeg. Mae'r Cae yn parhau i godi heriau gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan bobl annymunol, gyda nodwyddau a chynwysyddion alcohol gwag i'w canfod ar y safle. Bydd angen i'r Cyngor fod yn arloesol yn ei ffordd o feddwl am Gaeau Dargie. Argymhellir cael ffrydiau ariannu allanol i gynorthwyo gydag adnewyddu neu newid defnydd.
- **Mannau Chwarae.** Y Cyngor sy'n gyfrifol am faes chwarae Storiel. Mae'r gwaith cynnal a chadw yn isel ar y cyfan ond mae angen atgyweirio offer neu brynu eitemau newydd o bryd i'w gilydd oherwydd gorddefnyddio/fandaliaeth. Bydd y £25,000 a ddyrannwyd i wella parciau a mannau chwarae yn 2022-2023 (na chafodd ei wario) yn cael ei ddwyn ymlaen a'i ychwanegu at £25,000 ychwanegol yn 2023-2024. Byddai hyn yn caniatáu £50,000 i'r Cyngor uwchraddio'r holl barciau chwarae i safon isafswm a dylid cyflwyno rhaglen waith i gynnal y safon.

**ARGYMHELLIAD: bod arian yn cael ei neilltuo ar gyfer y gwaith angenrheidiol fel y'i cynhwysir yn atodlenni'r gyllideb.**

**6) Cynlluniau Canol y Dref**

Mae Stryd Fawr Bangor yn parhau i brofi cyfnod heriol. Nid yw safonau gorfodi gan Gyngor Gwynedd wedi arwain at welliant mewn eiddo tramgwyddus ac mae nifer o unedau gwag yn gwaethygu'r broblem gyffredinol o ran delwedd.

- **Y Farchnad Wythnosol**
  Dychwelodd y farchnad wythnosol tua diwedd 2021 a chafwyd ymateb cadarnhaol i hyn i ddechrau. Fodd bynnag, mae nifer o gwynion wedi dod i law gan fanwerthwyr ynghylch nifer a math y deiliaid stondinau sy'n gweithredu yn y farchnad, sy'n cael effaith andwyol ar fusnesau sefydlog.

- **Grŵp Strategol Bangor**
  Mae Grŵp Strategol Bangor yn cyfarfod bob chwarter ac yn dod â’r chwaraewyr allweddol ynghyd i wella ac adfywio’r ddinas. Gyda Chyngor Gwynedd bellach yn arwain ar gynllun adfywio 'Ein Hardal 2035' ar gyfer ardal Bangor (yn cynnwys y Felinheli a Phentir ), mae angen trafod strwythur grwpiau a fforymau Bangor i'r dyfodol.

- **Ardal Gwella Busnes Bangor (BID)**
  Mae cyfathrebu ag Ardal Gwella Bangor, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn dal yn annibynadwy. Dilynwyd cyfarfod cadarnhaol iawn gyda rheolwr y BID ym mis Hydref gan ddau fis o fethiant i ymateb i e-byst neu negeseuon ffôn.

- **Cais Grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru**
  Yn dilyn methiant y cais am grant, a gyflwynwyd yn 2021, mae Datganiad o Ddiddordeb newydd wedi’i gyflwyno i grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru (a gyflwynwyd drwy Gyngor Gwynedd), gyda golwg ar wella’r Stryd Fawr a Chanol y Ddinas yn ehangach. Er mai dim ond Datganiad o Ddiddordeb yw hwn, mae Cyngor Gwynedd wedi mynnu gwybodaeth ychwanegol i'r lefel o fanylder a ddisgwylir fel arfer gyda'r cais llawn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i'w gyflenwi.
  Mae'r Datganiad o Ddiddordeb cychwynnol ar gyfer grant o £84,000 a bydd angen arian cyfatebol o tua £36,000. Mae'r cyfansymiau hyn yn debygol o ostwng, pe bai'r cais yn cyrraedd y lefel nesaf, a byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid amrywiol i gyfrannu at y cyfanswm arian cyfatebol hwn. Mae £20,000 o gyllideb Cyngor y Ddinas wedi'i neilltuo fel ei gyfraniad i'r cais hwn.

  **ARGYMHELlAD: bod y Cyngor yn ystyried neilltuo arian i gyfrannu at Grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gynorthwyo Gwelliant Canol Dinas Bangor.**

- **Caffael eiddo ar y Stryd Fawr**

Yn dilyn penderfyniad diweddar gan y Cyngor, mae gwaith wedi dechrau i nodi eiddo posibl ar y Stryd Fawr y gallai'r Cyngor eu caffael. Mae eiddo o'r fath yn disgyn yn fras i ddau gategori; eiddo sydd mewn cyflwr cymharol dda ac y gellid eu defnyddio’n gyflym i gynnig cyfleusterau i sefydliadau cymunedol neu fusnesau newydd, fel siopau dros dro ac ati. Fel arall, gallai'r Cyngor brynu eiddo mewn cyflwr gwael, a'u hadnewyddu, gan gyrchu grantiau Llywodraeth Cymru i

gynorthwyo. Mae'r ddau ddull wedi'u cynllunio i wella delwedd y Stryd Fawr. Mae cyllideb gychwynnol o £80,000 wedi'i dyrannu i ddechrau'r broses hon. Mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol, yn dibynnu ar ba brosiect a gaiff ei ganfod a'i ddilyn yn y pen draw.

**8) Staffio**

Penodwyd Cyfarwyddwr Dinesig llawn amser ar 1 Medi 2022, ac yn fuan wedyn penodwyd gweinyddwr rhan-amser parhaol a Dirprwy Glerc rhan-amser parhaol dan hyfforddiant. Mae'r ddwy swydd hyn yn cael eu cyflawni gan yr un person. Mae Swyddog Prosiect y Cyngor yn bwriadu ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r ddwy swydd cynnal a chadw yn cael eu llenwi gan weithwyr llawn amser parhaol. Felly, mae staff y Cyngor, ar y cyfan, bellach yn sefydlog ac ar wahân i benderfyniad ar sut i lenwi swydd y Swyddog Prosiect, ychydig o newid a ddisgwylir.

**ARGYMHELLIAD: Bod swydd y Swyddog Prosiect (a oedd yn flaenorol yn cynnwys trefnu digwyddiadau) yn cael ei llenwi gan Swyddog Digwyddiadau rhan amser a bod Rheolwr Prosiect yn cael ei gyflogi am gyfnod unrhyw brosiect penodol yn ôl yr angen.**

**Martin Hanks** **Ionawr 2023**
Y Cyfarwyddwr Dinesig/Swyddog Ariannol Cyfrifol

## AMSERLEN CYFARFODYDD 2023 - 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2023 | Mai | 22ain | **CYFARFOD BLYNYDDOL** |
| | Mehefin | 5ed | Cyfarfod Cyngor |
| | Mehefin | 26ain | Gweithdy Weledigaeth Bangor |
| | Gorffenaf | 10fed | Cyfarfod Cyngor |
| | Awst | | |
| | Medi | 11teg | Cyfarfod Cyngor |
| | Hydref | 2ail | Cyfarfod Cyngor |
| | Hydref | 30ain | Cyfarfod Cyngor |
| | Tachwedd | 20fed | Cyfarfod Cyngor |
| | Rhagfyr | 11eg | Cyfarfod Cyngor |
| 2024 | Ionawr | 15fed | Cyfarfod Cyngor |
| | Chwefror | 12fed | Cyfarfod Cyngor |
| | Mawrth | 11eg | Cyfarfod Cyngor |
| | Ebrill | 8fed | Cyfarfod Cyngor |
| | Mai | 13eg | **CYFARFOD BLYNYDDOL** |

Er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd I'r Cyngor, nid yw'r atodlen hon yn nodi a fydd y cyfarfod yn cyfarfod Cyngor llawn,cyfarfod pwyllogr Asedau, neu'r ddau. Bydd hyn yn cael ei bennu gan y busnes sydd ei angen ar y tro.